



## Elusennau ac ymglyfreitha

# Rhestr wirio i ymddiriedolwyr

Os yw'r ymddiriedolwyr wedi ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael iddynt i ddatrys y mater ac maent yn penderfynu dwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol, mae'n rhaid iddynt fodloni eu hunain bod gwneud hynny er lles gorau'r elusen. Dylai'r ymddiriedolwyr allu dangos bod unrhyw benderfyniadau i ddwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol neu beidio er lles gorau'r elusen.

Mae'n bwysig bod ymddiriedolwyr yn gallu cyfiawnhau'r penderfyniadau a wnânt ar ran eu helusen. Bydd buddiolwyr yr elusen, ei chefnogwyr a'r comisiwn yn disgwyl bodloni eu hunain mai unrhyw benderfyniadau y mae'r ymddiriedolwyr wedi'u gwneud yw'r ffordd orau ymlaen i'r elusen. Bydd ystyried a chofnodi penderfyniadau yn llawn ar y materion a'r cwestiynau canlynol yn helpu'r ymddiriedolwyr i wneud hyn.

### Y camau gweithredu allweddol i ymddiriedolwyr yw:

- ystyried yr holl ddewisiadau rhesymol sydd ar gael i'r elusen i ddatrys y mater, megis datrys anghydfod neu gytuno ar gyfaddawd cyfreithiol - gall hyn gynnwys ceisio cyngor proffesiynol i sicrhau bod yr holl ddewisiadau eraill wedi cael eu hystyried yn llawn.
- ceisio ac ystyried cyngor cyfreithiol arbenigol (ac o bosib cyngor cynghorwyr arbenigol cymwys addas eraill, er enghraifft cyfrifydd neu syrfêwr siartredig) ar y materion canlynol: 
  - cryfderau cymharol achos yr elusen ac unrhyw amddiffyniad neu wrth-hawliad y gallai'r
  - y costau tebygol
  - y risgiau sy'n gysylltiedig ag adennill costau'r elusen
  - y risg o orfod talu costau parti arall
  - gwerth neu werth posibl unrhyw hawliad
- ystyried a yw'r camau cyfreithiol dan sylw yn gyfwerth ag achos elusennol ac a fydd rhaid i'r ymddiriedolwyr wneud cais i'r comisiwn am gydsyniad
- ystyried yr effaith ar yr elusen a'i buddiolwyr o wario arian ar achos cyfreithiol, arian na fydd ar gael felly ar gyfer gwaith arall yr elusen
- asesu a oes digon o arian gan yr elusen i dalu'r costau posibl dan sylw - mae'r ddau barti sy'n ymwneud â'r camau cyfreithiol yn debygol o fynd i gostau os ydynt yn ennill neu'n colli, er bod y costau yn debygol o fod yn uwch i'r parti sy'n colli
- ystyried unrhyw ddewisiadau yswiriant i ddiogelu eu hunain a helpu i reoli'r risgiau cost

- ystyried yr effaith ar roddwyr neu gyllidwyr yr elusen os yw arian yn cael ei wario ar gamau cyfreithiol - hefyd ystyried yr effaith ar yr elusen os yw'n penderfynu peidio ag amddiffyn ei safle a bwrw ymlaen â hawliad cyfreithlon
- ystyried beth fydd yr effaith ar yr elusen os yw'n neilltuo adnoddau rheoli, egni ac amser ar y camau cyfreithiol
- cynllunio ar gyfer yr effaith a gaiff unrhyw gyhoeddusrwydd y gall y camau cyfreithiol neu'r diffyg gweithredu ei chael ar enw da'r elusen
- nodi a oes wrthdaro buddiannau gan yr ymddiriedolwyr (neu deyrngarwch) wrth wneud y penderfyniad; mewn rhai amgylchiadau gall fod yn ddigonol i'r ymddiriedolwyr sydd â'r gwrthdaro i beidio â bod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau ar bwnc arbennig - mewn amgylchiadau eraill, ni fydd gwybodaeth am y camau cyfreithiol yn cael ei rhannu â'r ymddiriedolwr sydd â'r gwrthdaro
- adolygu'r materion canlynol yn rheolaidd: 
  - a yw dwyn neu barhau â'r camau cyfreithiol er lles gorau'r elusen ac a fydd y parti arall yn gallu cydymffurfio â thelerau unrhyw farn sy'n cael ei llunio?
  - a fydd y parti arall yn gallu talu'r symiau a ddyfernir o ran unrhyw ddyfarniad a chostau a threuliau cyfreithiol os ydynt yn colli'r achos - fel arfer mae'r llys yn gofyn i'r sawl sy'n colli i dalu costau'r sawl sydd wedi ennill yr achos - fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu y bydd yr arian ganddynt i dalu neu bydd swm y costau a ddyfernir gan y llys yn swm llawn y costau y mae'n rhaid i'r elusen eu talu